CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR LLEOL ABERTAWE

# Monitro Gweithredu 2023-24

PARTNERIAETH NATUR LEOL ABERTAWE
SWANSEA LOCAL NATURE PARTNERSHIP

MONITRO GWEITHREDU 2023 - 24

# CYD-DESTUN

- Mae'r ddogfen hon yn nodi crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 gan bartneriaid Partneriaeth Natur Leol (PNL) Abertawe.
- Mae'r gwaith wedi'i gategoreiddio yn ôl y themâu gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe.
- Nodir y themâu gweithredu hyn fel y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i adfer natur yn Abertawe.
- Asesir gwaith yn erbyn themâu gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe i sicrhau bod gwaith y partneriaethau'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur ac yr ymdrechir i weithio tuag at gyflawni'r holl flaenoriaethau.
- Nid yw'r ymarfer hwn yn bwriadu asesu cyflwr natur yn Abertawe ac nid yw'n gweithredu fel dangosydd neu ddirprwy ar gyfer asesu adferiad natur.
- Nid yw'r enghreifftiau a roddir yn y tudalennau dilynol yn rhestr gyflawn o'r holl waith yr adroddwyd amdano. Gall y swyddog partneriaeth ddarparu rhestr lawn os oes angen.
- Sylwer, mae'n debygol nad adroddwyd am beth gwaith oherwydd amrywiol gyfyngiadau o ran amser ac adnoddau y gall partneriaid eu hwynebu a'r angen i flaenoriaethu eu cynlluniau gwaith unigol dros adrodd gwirfoddol.




MONITRO GWEITHREDU 2023 - 24

# RHAI RHIFAU

Gwnaed gwaith gwella cynefinoedd (gan gynnwys rheoli) ar draws **>20,000ha**






Plannwyd **19,371** o goed (gan gynnwys eginblanhigion a choed tal unigol ac mewn gwrychoedd)

Bu **314** o wirfoddolwyr yn rhan o hyn (isafswm)





Roedd **>8000** o bobl wedi ymwneud â hyn





- Yn y llun uchod mae maint yn nodi nifer y camau gweithredu/prosiectau sy'n cyd-fynd â phob thema gweithredu.
- Roedd gwaith yr adroddwyd amdano gan bartneriaid yn aml yn cyd-fynd ag amryfal themâu gweithredu.
- Mae rhai themâu gweithredu'n ehangach a/neu'n haws eu datrys nag eraill, felly nid yw nifer y camau gweithredu yr adroddwyd amdanynt sy'n cyd-fynd â phob thema gweithredu ynddo'i hun yn dangos a ymdrinnir â'r flaenoriaeth.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 1.1-1.4

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:




Cysonwyd 7 â thema gweithredu 1.4. Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu a chymeradwyo cynlluniau mewnol ar gyfer adfer natur, darparu sylwadau ar gyfer polisi cynllunio cenedlaethol a mabwysiadu canllawiau newydd.

Cysonwyd 30. Yn amrywio o ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth fyd-eang a chenedlaethol fel Her Byd Natur y Ddinas ac Wythnos Natur Cymru, i ddigwyddiadau a drefnwyd yn lleol e.e. arolygon gwenoliaid duon cymunedol, yn ogystal â digwyddiadau pwrpasol, ac ymwybyddiaeth ac ymgysylltu anffurfiol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol. Cwmpaswyd gweithgareddau fel arolygon rhywogaethau, plannu coed, plygu perthi, helfeydd trychfilod, dal gwyfynod, darlithoedd/sgyrsiau a mwy.

Cysonwyd 25. Roedd y gwaith yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion i wella safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth/gwella rheolaeth, hwyluso grwpiau cymunedol i greu a rheoli dysglau plannu/perllannau, cefnogi ffrindiau grwpiau i wella'r ffordd y rheolir parciau/mannau gwyrdd, ymgysylltu mewnol/gwella'r modd y rheolir tir sy'n eiddo i bartneriaid ac a reolir ganddynt, ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas â mentrau cadwraeth arfaethedig.

Cysonwyd 29. Roedd y gwaith yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o gadwraeth rhywogaethau neu gynefinoedd a bygythiadau iddynt, ymwybyddiaeth o losgi bwriadol gydag ysgolion, modiwlau e-ddysgu mewnol a hyfforddiant arall, dehongli safleoedd, datblygu apiau a rhaglenni sgiliau gwyrdd.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 1.1-1.4

## Thema Gweithredu 1.1:

Darparu digwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth hygyrch ac addysgol yn bersonol a/neu ar-lein, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ehangu cyrhaeddiad mentrau y tu allan i bobl/grwpiau sydd eisoes yn ymwneud ag adferiad a chadwraeth natur.

Cyngor Abertawe Swansea Council: Cyflwynwyd 70 o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys plannu bylbiau, cyfrif tegeirianau, glanhau traethau, diwrnodau tasgau cadwraeth, plannu coed a theithiau cerdded ystlumod, y cymerodd bron 700 o wirfoddolwyr ran ynddynt. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys rhai Her Byd Natur y Ddinas ac Wythnos Natur Cymru.

The Orchard Project – Bringing orchards into the heart of urban communities: Crëwyd pedair perllan newydd gyda chymorth gwirfoddolwyr (wedi'i ariannu'n rhannol gan y Bartneriaeth Natur Leol). 3.5 6.3

**Cyngor Cymuned Rhosili**: Cynhaliwyd cyfres o flogiau ganddynt ar yr Hwb a ysgrifennwyd gan aelod lleol o'r RSPB/Gymdeithas Adaregol Prydain a oedd yn annog preswylwyr i gymryd rhan yn nigwyddiad Garden Birdwatch blynyddol yr RSPB a rhannu canlyniadau'n lleol.

Coeden Fach Community Tree Nursery: Darparwyd cyfleoedd gwirfoddoli ganddynt ar gyfer Crisis a Barod ym mhlanhigfa Coeden Fach.

Gower Seal Group: Cyflwynwyd 70 o sgyrsiau i gynyddu ymwybyddiaeth o gadwraeth morloi a bygythiadau iddynt.

## Thema Gweithredu 1.4:

Gwreiddio penderfyniadau natur-bositif a arweinir gan dystiolaeth ar bob lefel a dadlau dros newidiadau sy'n cefnogi adferiad natur.

Cyngor Abertawe Swansea Council: Cynllun adran 6 wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo. 6.2

## Thema Gweithredu 1.2:

Gweithio gyda'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth, yr heriau, a'r cyfleoedd i wneud penderfyniadau natur-bositif.

Swansea Community Farm / Fferm Gymunedol Abertawe: Cwblhawyd astudiaeth dichonoldeb a digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y prosiect pori geifr yn Townhill. Ei nod yw defnyddio pori er lles cadwraeth i wella'r gwaith o reoli Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur dethol yn Abertawe

Cyngor Abertawe Swansea Council: Fel rhan o'r prosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru (ENRaW), bu dros 400 o wirfoddolwyr, 400 o sefydliadau rhanddeiliaid a 170 o aelodau o'r gymuned yn ymwneud â hyn.

West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru: Mabwysiadu llednant: Bu 160+ o bobl a pherchnogion tir yn ymwneud â hyn yn Abertawe.

Gower Seal Group: Perswadiwyd rhai manwerthwyr lleol i roi'r gorau i werthu cylchynau hedegog plastig. 4.6

## Thema Gweithredu 1.3:

Ymgysylltu â chymunedau, ysgolion a pherchnogion tir i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn eu hardal a gweithio gyda'i gilydd i annog rheolaeth a gweithredoedd priodol i gyflawni adferiad natur.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service: Mentrau ymwybyddiaeth o losgi bwriadol gyda swyddogion cyswllt ysgolion yn Abertawe, yn enwedig o amgylch Mynydd Cilfái.

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Wildlife Trust of South & West Wales: Natur Drws Nesaf: Darparwyd map safle ganddynt ynghyd â chyngor ar gyfer Ysgol Gynradd Carnglas

Swansea Community Farm / Fferm Gymunedol Abertawe: Buont yn gweithio'n wythnosol mewn tair ysgol i ddatblygu eu mannau awyr agored ar gyfer tyfu a bywyd gwyllt.


CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 2.1-2.3

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:

Cysonwyd 9. Yn cwmpasu darparu blychau ystlumod a chlwydfannau pwrpasol, ailgyflwyno llygod y dŵr a gwella cynefinoedd, cael gwared ar goredau i wella llwybrau i bysgod, a phlannu tamaid y cythraul ar gyfer brithegion y gors.

Cysonwyd 29. Yn cwmpasu amrywiol waith gwella cynefinoedd ar gynefin â blaenoriaeth mewn Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a safleoedd eraill a warchodir, yn ogystal â gwaith/prosiectau wedi'u targedu at lygod dŵr, tegeirianau'r fign galchog, ystlumod, pysgod blaenoriaeth a morwellt.




Cysonwyd 5. Yn cwmpasu prosiectau monitro ystlumod pedol a phathewod ynghyd ag arolygon cynefinoedd Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 2.1-2.3

**Thema Gweithredu 2.1:** Monitro ac arolygu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys pennaf yn Abertawe i ehangu'r wybodaeth gyfredol am bresenoldeb a helaethder a thrwy hynny lywio penderfyniadau rheoli ac ymyriadau cadwraeth.

Cyngor Abertawe Swansea Council: Lansio Prosiect Monitro Pathewod Cyll Coed yr Esgob. 1.1 5.1

**Grŵp Ystlumod Morgannwg:** Aethpwyd ati i fonitro gaeafgysgu a chlwydfannau mamolaeth ystlumod pedol mewn safleoedd amrywiol o gwmpas Gŵyr. Cyflwynwyd y data i'r Prosiect Monitro Ystlumod Cenedlaethol. 1.1

**Thema Gweithredu 2.2:** Datblygu, adolygu a chyflwyno camau gweithredu wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â bygythiadau i rywogaethau a chynefinoedd o'r pwys pennaf neu wella'r modd y cânt eu rheoli, a thrwy hynny adeiladu i mewn i rwydwaith ehangach o adferiad natur a gwydnwch ecosystemau.

Swansea Community Farm Fferm Gymunedol Abertawe: Pori er lles cadwraeth yng Ngwarchodfa Natur Leol Rhos Cadle. Bu gwirfoddolwyr ar y fferm yn rhan o hyn. 1.2 1.3 3.2

Cyngor Abertawe Swansea Council: Uchafswm o 153 o flychau gwenoliaid duon a 127 o flychau ystlumod i'w gosod ar gartrefi cyngor ar draws pedair ardal wahanol o Abertawe. 4.6

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales: Rheoli tegeirianau'r fign galchog yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Whiteford.

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wildlife Trust of South & West Wales: Rheoli cadwraeth ar draws 20 safle sy'n dod i gyfanswm o 180ha gan gynnwys sawl math o gynefinoedd â blaenoriaeth. 3.2

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales: Rheoli prysgwydd, torri llaciau a gwartheg yn pori ar forfa heli yn GNG Oxwich. 3.2

Cyngor Abertawe Swansea Council: Rheoli prysgwydd, torri llaciau a gwartheg yn pori ar forfa heli yn GNG Oxwich.

**Thema Gweithredu 2.3:** Cyflwyno camau gweithredu rhagweithiol sy'n cynyddu ac yn ehangu helaethrwydd rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys pennaf.

Swansea University Prifysgol Abertawe: Adeiladu meithrinfa migwyn ar gyfer adfer mawndir fel rhan o'r prosiect 'Buzz Across the Bay' 1.2

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales: Ailgyflwyno llygod y dŵr yn GNG Oxwich.

Cyngor Abertawe Swansea Council: Plannwyd dros 1000 o blanhigion tamaid y cythraul ar Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Rhos Llywelyn i wella cynefin glaswelltir corsiog â blaenoriaeth a darparu cyfleoedd i ehangu niferoedd brithegion y gors. 3.2

Penllergare Cadwraeth, Cymuned, Hanes / Conservation, Community, History: Crëwyd ~200m o gynefin ffos newydd a ~75m o gynefin ffos gwell yng ngham 1 eu rhaglen adfer llygod y dŵr yng Nghoed Cwm Penllergare. Fe'i hariannwyd yn rhannol gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 1.2 3.2 6.3


CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 3.1-3.6

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:

Cysonwyd 1 a oedd yn cynnwys cynlluniau rheoli newydd ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Cysonwyd 6. Yn cwmpasu amrywiol brosiectau adfer cynefinoedd afonydd a glannau (gwella cynefinoedd a/neu gael gwared ar goredi), dan arweiniad Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn bennaf/mewn cydweithrediad â nhw.




Cysonwyd 42. Yn cwmpasu gwaith gwella cynefinoedd mewn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, SoDdGA, parciau, ysgolion a chanolfannau cymunedol etc. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys dolydd blodau gwyllt, coetir, glaswelltir corsiog, afonydd, glaswelltir metelaidd, glaswelltir calchfaen, twyni tywod, rhostir arfordirol, pyllau a chorsydd. Roedd y rhan fwyaf o waith ar raddfa fwy ar safleoedd yn canolbwyntio'n fwy ar wella amodau (e.e. rheoli/gwella), ond aed ati i greu cynefinoedd ar raddfa lai mewn ardaloedd mwy trefol.

Cysonwyd 1 a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar waith rhagarweiniol ar gyfer prosiect trawsblannu/gwella morwellt.

Cysonwyd 36. Yn cwmpasu gwaith creu perllannau a chyfleuster tyfu bwyd, plannu coed, creu toeon gwyrdd, dysglau plannu blodau gwyllt ac Isadeiledd Gwyrdd trefol arall, ynghyd â rheoli parciau fel dolydd torri a chasglu a gwella cynefinoedd Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur/mannau gwyrdd trefol eraill.

Cysonwyd 11, sy'n cwmpasu gwaith gwella/creu cynefinoedd amrywiol.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 3.1 -3.6

**Thema Gweithredu 3.1:** Nodi lleoliad adfer a chreu cynefinoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer hynny yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol gan gynnwys gwydnwch ecosystemau a chysylltedd cynefinoedd.

Cyngor Abertawe Swansea Council — Gwellwyd sawl math gwahanol o gynefin ar draws saith safle yn Abertawe (cyfanswm o 4.9ha) i wella gwydnwch ecosystemau ledled Abertawe.

**Thema Gweithredu 3.2:** Datblygu a chyflwyno camau gweithredu i wella amrywiaeth, ehangder, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd yn Abertawe.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales — Rheoli llystyfiant - Cefn Bryn.

Cyngor Abertawe Swansea Council — Rheoli 12 safle dôl drwy'r dull torri a chasglu ynghyd â phlannu planhigion plwg atodol.

Heuwyd caeau cnydau â blodau gwyllt a chnydau sy'n llesol i natur fel cymysgeddau peilliwyr a bwyd i adar sy'n treulio'r gaeaf yma.

Swansea University Prifysgol Abertawe — Buzz Across the Bay': Mae 8000m$^2$ o ddolydd blodau gwyllt wedi'u creu/plannu a 7000m$^2$ o lawntiau wedi'u gadael heb eu torri. 1.3 6.3

Cae Felin CSA — Crëwyd rhwydwaith o 3 phwll bywyd gwyllt a phlannwyd planhigion ynddynt gyda chymorth gwirfoddolwyr yng Nghae Felin, gyda budd ychwanegol sefydlu basnau cadw, lliniaru'r perygl o lifogydd a gwella ansawdd y dŵr. 1.1 6.3

CoedLleol SmallWoods — Gwnaed gwaith gwella cynefinoedd coetir yn Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Coridor Bywyd Gwyllt Hillside gyda chymorth gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys prysgoedio coed cyll, clirio mieri, plannu coed, creu gwrychoedd marw a phentyrrau cynefin. 1.1 6.3

**Thema Gweithredu 3.3:** Rheoli 12 safle dôl drwy'r dull torri a chasglu ynghyd â phlannu planhigion plwg atodol.

Cyngor Abertawe Swansea Council — Rheoli 12 safle dôl drwy'r dull torri a chasglu ynghyd â phlannu planhigion plwg atodol. 1.4 2.2

**Thema Gweithredu 3.4:** Adfer a chreu cynefin o fewn a thu allan i rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru i helpu i adfer prosesau ecolegol a chysylltu poblogaethau bywyd gwyllt morol.

Carmarthen Bay and Estuaries EMS / Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ACA — Prosiect trawsblannu/gwella morwellt: cyfarfodydd cynnydd gyda 'Project Seagrass'. 4.6

**Thema Gweithredu 3.5:** Adfer a chreu cynefin ac isadeiledd gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o gwmpas trefi i gynyddu mynediad at fannau gwyrdd a glas lled-naturiol amlswyddogaethol o ansawdd da a'r manteision lles i gymunedau sy'n gysylltiedig â hyn.

The Environment Centre — Crëwyd 29 o gafnau plannu newydd yn amrywio mewn maint o oddeutu 1 x 0.35m i 1.5 x 2m o ran hyd, mewn pum ardal wahanol. Dyluniwyd a chrëwyd cafnau plannu gyda gwahanol grwpiau cymunedol a fydd yn helpu i'w rheoli. 1.1 6.3

Cyngor Abertawe Swansea Council; Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales — Gardd law Burrows Road. Dyma'r datrysiad System Ddraenio Gynaliadwy bio-gadw cyntaf yn Abertawe ac mae'n darparu porthiant a chynefin i beillwyr. 6.3

**Thema Gweithredu 3.6:** Adfer a chreu cynefin yn ein hamgylcheddau afonydd a gorlifdir i helpu i adfer prosesau ecolegol a chysylltu bywyd gwyllt dyfrol, fel pysgod mudol.

Penllergare; West Wales Rivers Trust — Cafwyd gwared ar gored yng Nghoed Cwm Penllergare i wella cyfleoedd i bysgod symud yn rhydd drwy'r dŵr, mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru. 2.2 2.3 6.3

West Wales Rivers Trust — Archwiliwyd 14 o adeileddau yn afonydd Abertawe gyda'r nod o roi newidiadau ar waith yn 2024. 6.3

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 4.1-4.6

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:

**4.3** – Cysonwyd 2, gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan y cerbydlu a threialon tanwydd HVO ynghyd ag adeiladu cartrefi cyngor hynod effeithlon o ran ynni gyda storfeydd batri solar a phympiau gwres ffynhonnell aer.

**4.6** – Cysonwyd 4. Canolbwyntiwyd ar forloi, gwenoliaid, ystlumod a morwellt.

**4.2** – Cysonwyd 12. Gwnaed gwaith ar safleoedd unigol (40 safle o bosib) mewn cynefinoedd daearol a glannau afonydd, gan dargedu rhywogaethau estron goresgynnol fel canclwm Japan, Jac y Neidiwr, ceirch cochion, cotoneaster, rhododendron, crydlys, bambŵ, gwyddfid Tsieina, a'r dderwen fythwyrdd. Er bod peth o'r gwaith ar draws safleoedd cymharol fawr, nid adroddwyd am brosiectau rhywogaethau estron goresgynnol cydweithredol ar raddfa fawr.

**4.1** – Cysonwyd 8. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar atal llygredd ar safleoedd, naill ai rhag sbwriel mewn amgylcheddau daearol, dŵr croyw neu forol (e.e. casglu sbwriel, glanhau traethau) neu lygredd dŵr (drwy ddŵr wyneb ffo a Systemau Draenio Cynaliadwy) a llygredd golau.

**4.5** – Cysonwyd 1. Yn gysylltiedig â gofynion gorfodi cynllunio a gwella bioamrywiaeth.

**4.4** – Cysonwyd 4. Yn cwmpasu ymdrechion i leihau aflonyddu ar forloi yn ogystal ag aflonyddu ar fywyd gwyllt morol yn gyffredinol.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 4.1-4.6

**Thema Gweithredu 4.1:** Lleihau a, lle y bo modd, ddileu llygredd amgylcheddol i amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol yn Abertawe. Defnyddio dulliau rheoli cynaliadwy ac atebion sy'n seiliedig ar natur lle bo'n berthnasol.

- Swansea Community Farm / Fferm Gymunedol Abertawe: Gwirfoddolwyr yn casglu sbwriel yng Ngwarchodfa Natur Leol Rhos Cadle. 1.2 3.2 3.5
- Coed Lleol Small Woods: Casglwyd 20 sachaid o sbwriel o Goridor Bywyd Gwyllt Hillside. 3.2 3.5
- West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru: Mabwysiadu llednant: cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer casglu sbwriel, cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol. 3.2 3.6

**Thema Gweithredu 4.2:** Gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol daearol, dŵr croyw a morol ar draws sir Abertawe.

- Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales: LifeQuake: Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Cors Crymlyn. 3.2 3.5
- Penllergare (Cadwraeth, Cymuned, Hanes / Conservation, Community, History): Cafwyd gwared ar larwydd a rhododendron i wella coetir llydanddail brodorol. 3.2 3.5
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Wildlife Trust of South & West Wales: Rheoli canclwm Japan, Jac y Neidiwr, rhododendron, bambŵ, gwyddfid Tsieina, corchwyn a cotoneaster ar draws safleoedd yr Ymddiriedolaeth Natur 1.2 3.2 3.5
- Cyngor Abertawe / Swansea Council: Cafwyd gwared ar/rheolwyd rhywogaethau estron goresgynnol gan gynnwys cotoneaster, derw bythwyrdd, canclwm Japan, ceirch cochion, Jac y Neidiwr a rhododendron o sawl Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a Gwarchodfa Natur Leol yn Abertawe. 3.2

**Thema Gweithredu 4.3:** Cyfrannu at darged Sero Net 2050 Abertawe a gwneud penderfyniadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar rywogaethau a chynefinoedd.

- Cyngor Abertawe / Swansea Council: Adeiladwyd tai cyngor newydd gyda storfeydd batris a phympiau gwres ffynhonnell aer.
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service: 43 cerbyd trydan ac 11 cerbyd hybrid ar draws y cerbydlu gyda phrawf tanwydd HVO mewn 3 lleoliad, y mae 2 ohonynt yn ardal Abertawe.

**Thema Gweithredu 4.4:** Defnyddio canllawiau ymwelwyr a hyrwyddo codau ymddygiad perthnasol ar gyfer lleihau effaith ddynol ar fywyd gwyllt morol, rhynglanwol a daearol lleol.

- Carmarthen Bay and Estuaries EMS / Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ACA: Cyfrannwyd at daflen côd ymddygiad Morloi Cymru gyfan.
- Gower Seal Group: Hyrwyddwyd ymgyrchoedd cenedlaethol 'Giving Seals Space' ac 'Enjoy Respect and Protect'. 1.2 4.6
- Carmarthen Bay and Estuaries EMS / Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ACA: Helpwyd i ddatblygu taflen côd ymddygiad Glan Môr ac Arfordirol Cymru gyfan.

**Thema Gweithredu 4.5:** Lleihau rhagor o golled a chynyddu cysylltedd mewn coridorau bywyd gwyllt allweddol ledled Abertawe er mwyn lleihau effeithiau darnio cynefinoedd o ganlyniad i dwf trefol ac effeithiau defnydd tir hanesyddol.

- Cyngor Abertawe / Swansea Council: Arweiniodd Polisi Cynllunio Newydd Cymru at wrthod rhai ceisiadau cynllunio oherwydd diffyg datganiad Isadeiledd Gwyrdd – gobeithio y bydd newyddion da gan y dylai ailgyflwyniadau gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth.

**Thema Gweithredu 4.6:** Ymateb yn rhagweithiol i ymchwil sy'n dod i'r amlwg ar ddirywiad rhywogaethau lleol a chenedlaethol, yn enwedig y rheini sydd mewn perygl o ddiflannu.


- Gower Ornithological Society: Arolygon gwenoliaid duon i nodi mannau nythu poblogaidd er mwyn targedu cyfleoedd ar gyfer gosod blychau adar. 1.1 5.1
- Gower Seal Group: Aethpwyd ati i lanhau traethau a chasglwyd dros 30 o gylchynau hedegog plastig. 4.1

# THEMÂU GWEITHREDU 5.1-5.3

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:

Cysonwyd 1. Asedau Isadeiledd Gwyrdd, llinell sylfaen canopi coed a chyfleoedd wedi'u mapio ar gyfer pob ward.

Cysonwyd 9. Yn cwmpasu digwyddiadau cofnodi cenedlaethol fel Her Byd Natur y Ddinas, arolygon gwenoliaid duon cymunedol, monitro afonydd, monitro pathewod ac arolygon llinell sylfaen o ganol y ddinas ac amrywiol Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.




Cysonwyd 1. Trefnwyd pedwar cyfarfod chwarterol a roddodd gyfle ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a rhoi diweddariadau ar brosiectau. Roedd pum ymweliad safle hefyd wedi darparu cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i ddysgu am brosiectau cadwraeth presennol sydd ar fynd yn Abertawe.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 5.1-5.3

**Thema Gweithredu 5.1:** Defnyddio arolygon llinell sylfaen, monitro a mentrau eraill i ddatblygu sylfaen dystiolaeth leol o ansawdd uchel ar gyfer Abertawe a sicrhau bod data'n hygyrch drwy Ganolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, a sefydliadau perthnasol eraill (e.e. CNC).

Cyngor Abertawe Swansea Council

Parhau i ddiweddaru mynegeion cyfeirio Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur gyda gwaith arolygu newydd lle bo modd gan gynnwys diweddariad astudiaeth ddesg Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru ar Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur ynghyd â saith diweddariad ar arolygon Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a phedwar datganiad ar reoli Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. 1.4 2.2

West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

Prosiect mabwysiadu llednant: Bu gwirfoddolwyr yn ymwneud â monitro afonydd. 1.2

Swansea Community Farm / Fferm Gymunedol Abertawe

Cynhaliodd gwirfoddolwyr daith gerdded gwenyn/cacwn reolaidd ar gyfer cadwraeth cacwn. 1.1

Gower Ornithological Society

Cynhaliwyd 13 o droeon cymunedol i chwilio am wenoliaid duon ar draws Abertawe a chanfuwyd 13 o nythod. Data wedi'i gyflwyno iSwiftMapper/Ganolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru. 1.1 6.3

**Thema Gweithredu 5.2:** Cefnogi datblygiad offer newydd sy'n defnyddio data amgylcheddol lleol i nodi a thargedu cyfleoedd adfer natur.

Cyngor Abertawe Swansea Council

Fel rhan o'r prosiect ENRaW, mapiwyd asedau a chyfleoedd Isadeiledd Gwyrdd a llinell sylfaen canopi coed ar gyfer pob ward.

**Thema Gweithredu 5.3:** Sicrhau bod gan PNL Abertawe'r sgiliau a'r arbenigedd eang ac amrywiol y mae eu hangen i gyflawni prosiectau adfer natur.

Partneriaeth Natur Lleol Abertawe / Swansea Local Nature Partnership

Trefnwyd pedwar cyfarfod chwarterol a roddodd gyfle ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a rhoi diweddariadau ar brosiectau. Roedd pum ymweliad safle hefyd wedi darparu cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i ddysgu am brosiectau cadwraeth presennol sydd ar fynd yn Abertawe. 6.1

Partneriaeth Natur Lleol Abertawe / Swansea Local Nature Partnership


Ychwanegwyd pum sefydliad newydd at restr bostio'r PNL.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 6.1-6.3

O'r camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt:

Cysonwyd 24. Mae hyn yn cynnwys cydweithio drwy ddarparu cyllid yn bennaf e.e. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn ogystal â phrosiectau partneriaeth ar raddfa fach.




Cysonwyd 1. Trefnwyd pedwar cyfarfod chwarterol a roddodd gyfle ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a rhoi diweddariadau ar brosiectau. Roedd pum ymweliad safle hefyd wedi darparu cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i ddysgu am brosiectau cadwraeth presennol sydd ar droed yn Abertawe.

Cysonwyd 1. Datblygwyd a chymeradwywyd cynllun Adran 6 y Cyngor. Mae'r cynllun wedi'i gysoni a'i strwythuro dan themâu gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe.

CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYSONI Â

# THEMÂU GWEITHREDU 6.1-6.3

**Thema Gweithredu 6.1:** Parhau i ddarparu partneriaeth leol gref a gweithgar (PNL Abertawe) i weithredu fel rhyngwyneb rhwng partneriaid cyflwyno lleol a Llywodraeth Cymru/CNC.

Trefnwyd pedwar cyfarfod chwarterol, yr oedd cyfanswm o 22 o sefydliadau partner wedi mynd iddynt, a roddodd gyfle ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a rhoi diweddariadau ar brosiectau. Trefnwyd pum ymweliad safle hefyd i ddarparu cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i ddysgu am brosiectau cadwraeth presennol ac sydd ar droed yn Abertawe. 5.3

**Thema Gweithredu 6.2:** Gwreiddio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe o fewn sefydliadau partner i gyfeirio camau gweithredu.

Cynllun adran 6 wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo. 1.4

**Thema Gweithredu 6.3:** Annog gweithredu ar y cyd wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe, gan gynnwys datblygu prosiectau, cyllid a chyfranogiad mewn prosiectau ar raddfa tirwedd neu genedlaethol.

Cydweithiwyd â Chyngor Abertawe i osod arwyddion ar draethau baner las i gynyddu ymwybyddiaeth o aflonyddu ar forloi. 1.2 4.4


Drwy gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, cynorthwywyd sawl prosiect partner a chyfrannwyd at nifer o themâu gweithredu.

1.1 1.3 2.3 3.5 1.2 2.2 3.2 3.6

MONITRO GWEITHREDU 2023 - 24

# MAP

- Map sylfaenol o ble y rhoddwyd camau gweithredu ar waith (lle'r oedd yr wybodaeth honno ar gael).
- Mae gwaith adfer natur (boed yn waith ymarferol, yn waith ymgysylltu neu'n gymysgedd o'r ddau) yn cael ei wneud ar draws llawer o Abertawe ac eithrio ardaloedd lle mae llawer o ffermydd preifat, ac ar dir comin ucheldiroedd Abertawe.



# PWYNTIAU I'W NODI

- Ar draws yr holl waith yr adroddwyd amdano yn y bartneriaeth, aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r themâu gweithredu mewn rhyw ffordd, yn enwedig 1.1, 1.2, 1.3, 2.2, 3.2, 3.5 a 6.3. Mae'r themâu gweithredu hyn yn canolbwyntio ar ddarparu digwyddiadau, ymwybyddiaeth ac ymgysylltu, gwella rheolaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth, gwella a chreu cynefinoedd a chydweithio. Mae'r themâu gweithredu hyn hefyd yn gymharol eang ac felly efallai nad yw'n syndod mai nhw yw'r rhai 'y gweithredir arnynt' fwyaf.
- Er y digwyddiadau niferus yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cyd-fynd â thema gweithredu 1.1, ychydig oedd yn "canolbwyntio ar ehangu cyrhaeddiad mentrau y tu allan i bobl/grwpiau sydd eisoes yn ymwneud ag adferiad a chadwraeth natur" sy'n elfen allweddol o thema gweithredu 1.1.
- Prin oedd y camau gweithredu/prosiectau yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â themâu gweithredu 3.3 (30% erbyn 2030) a 3.4 (adfer cynefinoedd morol). Er mae'r rhain yn themâu gweithredu mwy penodol, ac mae'r gwaith sy'n mynd i'r afael â nhw'n debygol o fod yn fwy cymhleth ac felly'n fwy hirdymor o ran natur. Mae rhai partneriaid yn ymgymryd â gwaith sy'n mynd i'r afael â thema gweithredu 3.3 eleni.
- Prin oedd y camau gweithredu yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â thema gweithredu 4.5 (lleihau rhagor o golled a chynyddu cysylltedd mewn coridorau bywyd gwyllt allweddol).
- Fodd bynnag, mae rhai partneriaid yn gwneud gwaith ar hyn o bryd sy'n mynd i'r afael â'r thema gweithredu hon drwy adolygiad o'r CDLlN.
- Er bod llawer o brosiectau rheoli/cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol unigol 'ar safleoedd', nid adroddwyd am unrhyw ddulliau 'cydweithredol', sy'n elfen allweddol o thema gweithredu 4.1.
- Dim ond un sefydliad partner adroddodd am wreiddio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe yn eu sefydliad. Mae hyn i'w ddisgwyl gan mai dim ond ym mis Medi 2023 y mabwysiadwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe yn ffurfiol gan y PNL. Ar gyfer sefydliadau a chanddynt ddyletswydd A6 yn benodol, gellid defnyddio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe i lywio fersiynau o gynlluniau A6 yn y dyfodol.
- Daw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'r pwyntiau a nodwyd yma o gamau gweithredu yr adroddwyd amdanynt yn unig. Efallai bydd mwy o gamau gweithredu/waith sy'n berthnasol gan sefydliadau eraill, busnesau etc. naill ai nad oes ganddynt y gallu i adrodd a/neu nad ydynt yn weithredol neu nad ydynt yn y PNL. Mae hyn yn rhywbeth i weithio arno i'w wella.

MONITRO GWEITHREDU 2023 - 24

# CYFLEOEDD

- Os oes gennych unrhyw syniadau am fylchau, cyfleoedd ar gyfer cydweithio neu flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, cysylltwch â chydlynwyr y PNL.